

HIGGS, DANIEL (bu farw 1691), gweinidog Piwritanaidd ac Anghydfurfiwr

Enw: Daniel Higgs
Dyddiad marw: 1691
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Piwritanaidd ac Anghydfurfiwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Ganwyd yn Chadwich, sir Worcester; ymaelodi yn Magdalen Hall, Rhydychen; B.A., 1651. Prin yr oedd wedi gorffen ei yrfa yn y brifysgol na ddarbyllwyd ef i ymuno â phregethwyr Cymru o dan Ddeddf y Taeniad, gan deithio o fan i fan yn Sir Gaerfyrddin; ar derfyn gweinyddiad y ddeddf honno, a chan nad oedd gan y 'Triers' newyddion fawr cydymdeimlad â'r drefn deithiol ymsefydlodd fel gweinidog yn Rhosili yng Ng yr. Gorfu arno roddi'r fywoliaeth honno heibio o dan ddeddf mis Medi 1660 (12 Chas. II, c. 17), ond yr oedd y brenin wedi ei enwi'n barod yn rheithor Porteynon; tyngodd y llwon angenrheidiol, fel y tystia ei enw yng nghofnodion esgobaeth Tyddewi. Ni allai lyncu gofynion Deddf Unffurfiaeth 1662, a gwelir yn Nhachwedd y flwyddyn honno enw rheithor newydd yno 'per nonconformitatem Danieli Higgs.' O hynny allan, ymddengys ei enw fel Anghydfurfiwr dwys a chadarn; sicrhodd drwydded i bregethu yn ei d ei hun yn Abertawe yn Ebrill 1672 (o dan Ddeclarasiwn Siarl II), a theimlai'n siomedig na chawsai fwy o leoedd i bregethu ynddynt (llwyddodd, mae'n wir, i sicrhau pedair trwydded arall i bregethu ym Mrowyr, ond nid yw y cofnodion swyddogol yn rhoddi ei enw i lawr fel pregethwr ynddynt). Yn 1675 gelwir ef, ond nid yn rhyw sicr iawn, yn fugail ar Annibynwyr pwerus Abertawe a'r cylch. Iechyd gwael oedd iddo, a gorfu iddo fwy nag unwaith adael Abertawe am ei le genedigol. Yno y bu farw yn 1691, rywbryd cyn mis Medi.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Llawysgrifau yn llyfrgell Bodley o eiddo John Walker, c. 4, f. 72; c. 13, f. 22, 39

Bishops' certificates, S. David's, file 13

Lambeth MS. 639 (337)

T. Richards, *Wales under the Indulgence*, 158

Broadmead Records (1847, 1865), Add. B. 514

Edmund Calamy, *An account of the ministers, lecturers, masters, and fellows of colleges and schoolmasters who were ejected or silenced after the Restoration in 1660* (London 1713), ii, 729-30

Y Cofiadur, 1948, 10-12, 24

Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690-1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917, 283

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20746763](https://www.wikidata.org/wiki/Q20746763)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.